

HUGHES, HUGH ('Tegai'; 1805 - 1864), gweinidog Annibynnol

Enw: Hugh Hughes
Ffugenw: Tegai
Dyddiad geni: 1805
Dyddiad marw: 1864
Rhiant: Barbara Hughes
Rhiant: Thomas Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: David Tecwyn Evans

Ganwyd yn Llandegai, 1805, mab Thomas a Barbara Hughes, Annibynwyr eiddgar o sir Fôn. Pan gaewyd capel Annibynnol Cororion, Tregarth, Llandegai, ymunodd â'r Wesleaid yn Shiloh, Tregarth, a daeth yn bregethwr cynorthwyol. Ni bu mewn ysgol ddydd, ond cafodd addysg ysgolion Sul Cororion a Shiloh. Yn ieuanc iawn, aeth i weithio yn chwarel lechau Bethesda, a rhagorodd fel chwarelwr. Darllennai ac efrydai'n galed a chyson, a bu ei aelodaeth yng Nghymdeithas Cymreigyddion Bethesda 'n addysg dda iddo. Cydolygai'n llawn â diwinyddiaeth y Wesleaid, eithr nid â'u ffurflywodraeth eglwysig; ail-ymunodd â'r Annibynnwyr, a derbyniodd alwad i fod yn weinidog Rhoslan. Wedyn, bu'n weinidog ym Manceinion ac yn Chwilog. Ar ôl ei dymor yn Chwilog, bu ganddo wasg argraffu o'r eiddo'i hun ym Mhwillheli, lle'r argraffwyd ac y cyhoeddwyd nifer o'i weithiau llenyddol, ynghyd â newyddiadur ceiniog, *Yr Arweinydd*. Yn 1859 aeth yn weinidog Bethel, Aberdâr, lle y bu'n dra llwyddiannus. Enillodd lawer o wobrau a chadair eisteddfodol, ysgrifennodd yn aml a helaeth i'r cylchgronau, a beirniadodd mewn llawer eisteddfod. Ymhlith ei lyfrau y mae [Gramadeg Cymraeg, sef leithiadur Athronyddol](#); *Bwrdd y Bardd*; *Telyn y Saint*; *Ioan yn Ynys Patmos* (awdl); *Gramadeg Barddoniaeth*; *Agoriad Gwybodaeth* (llyfr ar gyfansoddi ac areithio); *Adolygiad ar Draethawd Eliseus Cole ar Benarglwyddiaeth*; traethodau ar *Llywodraeth Foeso*; *Annibyniaeth*; *Olyniaeth Apostolaidd*; *Moses a Colenso*; *Cydwybod*; *Y Bedydd Cristionogol*; *Dawn ar Bob Dyn*. Bu Tegai'n ddiesgeulus yn ei orchwyllion fel pregethwr, llenor, a bardd, a gellir ei ystyried yn enghraifft bur nodedig o werinwr difanteision wedi ei ddiwyllio'i hun nes cyrraedd safle anrhydeddus ymhlith ei gyfoeswyr; canmolodd y [Dr. Lewis Edwards](#) ei *Ramadeg*, a rhoed teyrnged dda i'w ryddiaith a'i farddoniaeth gan '[J.R.](#) Llanbryn-mair, a '[Gwilym Hiraethog](#).' Bu farw yn Aberdâr, 8 Rhagfyr 1864, a chladdwyd ef yng ngladdfa 'newydd' Aberdâr.

Awdur

Y Parchedig David Tecwyn Evans, (1876 - 1957)

Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, [Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru \(Aberdâr 1867-70\)](#), i, 567-70

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Hugh Hughes](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [160302178](#)

Wikidata: [Q13129165](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

